## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (105)

## Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2004

# AGENDA

Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**……………………………………..**

## Cwestiwn Brys

Nicholas Bourne (Mid and West Wales): Will the Minister for Economic Development and Transport make a statement about trunk road improvements in Wales.

……………………………………..

## Eitem 2

**Datganiad Busnes**
Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**……………………………………..**

## Eitem 3

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: HIV a gwasanaethau iechyd rhywiol

……………………………………..

## Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân

## Eitem 4

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004 NDM2209 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2004.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru )**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sicrwydd y bydd profion yn cael eu cynnal ar yr holl gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio i'r DU i'w bwyta gan anifeiliaid, a hynny er mwyn gweld a ydynt wedi'u halogi ag organeddau GM.

**NDM2210 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2004;
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004.

**Dogfennau Ategol**
Cliciwch yma i weld Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

**……………………………………..**

## Eitem 5

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004**
**NDM2207 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2004.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)**
**(3)**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru )**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sicrwydd y bydd profion yn cael eu cynnal ar yr holl gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio i'r DU i'w bwyta gan bobl, a hynny er mwyn gweld a ydynt wedi'u halogi ag organebau GM.

Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am bennu'r lefel isaf o halogiad GM y mae modd ei ganfod mewn cynnyrch nad yw'n gynnyrch GM, ac am labelu cynnyrch sy'n cynnwys cynhwysion GM mewn modd clir a chyson.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am labelu cynnyrch sy'n gysylltiedig â GM yn fwy llym ac eglur, ac yn benodol, dylai cynnyrch o anifeiliaid a besgwyd ar borthiant GM a bwyd a gynhyrchwyd gan ddefnyddio ensymau GM gael eu labelu, a dylid lleihau'r trothwy ar gyfer halogiad GM mewn cynnyrch nad yw'n gynnyrch GM i 0.1%.

**NDM2208 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004 mewn perthynas â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2004;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd 2004;
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004.

**Dogfennau Ategol**
Cliciwch yma i weld Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

………………………………………..

## Eitem 6

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu**

**Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004**
**NDM2211 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004.

**NDM2212 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â'r copi drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004.

Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).

**Dogfennau Ategol**
Cliciwch yma i weld Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2004

**……………………………………..**

## Eitem 7

**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**
**NDM2205 David Melding (Canol De Cymru)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi gyda phryder difrifol yr argyfwng parhaus o ran rhestrau aros y GIG ac yn condemnio Llywodraeth Cynulliad Cymru am fethu â mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn mai'r cyfan a wnaiff y cynigion diweddar i ad-drefnu'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau fydd creu ansicrwydd a helynt ac na fydd yn trin un claf

ychwanegol.

……………………………………..

## Eitem 8

### Cynnig i gymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant yn ystod y flwyddyn, yn unol â Rheol

### NDM2206 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.6, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05 a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd 2004.

*Anfonwyd y tablau canlynol, ynghyd â nodyn esboniadol, at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 30 Tachwedd:*
***Tabl 1** sy'n dangos y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth bresennol y Cynulliad rhwng y Prif Grwpiau Gwariant;*
***Tabl 2** sy'n dangos y darpariaethau diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant gan ystyried y trosglwyddiadau i Adrannau'r Llywodraeth, ac ohonynt;*
***Tabl 3** sy'n dangos manylion arfaethedig y ddarpariaeth a ddygir ymlaen yn ôl Prif Grwp Gwariant.*

**Dogfennau Ategol**
Cliciwch yma i weld Tabl 1
Cliciwch yma i weld Tabl 2
Cliciwch yma i weld Tabl 3
Cliciwch yma i weld nodyn esboniadol - *Ni fydd y ddogfenau ar gael ar We'r Siambr*

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 8 Rhagfyr 2004**

E P Silk

Clerc y Cynulliad